# DYN v. CADWRAETH



Mae dyn yn difetha cadwraeth fel hyn:

**Torri coed**

**Datblygu arfordiroedd**

**Adeiladu ffyrdd**

**Llygredd**


**Defnyddio adnoddau naturiol**

Dyn ydy'r bygythiad mwyaf i gadwraeth!

- **Torri coed:** Mae'n torri coed i ennill tir i amaethyddiaeth, i adeiladu tai a ffyrdd ac i werthu'r coed. Caiff effaith andwyol ar yr amgylchedd e.e. colli cynefin ac erydiad. Ar Ynys Helena, er enghraifft, dim ond ar gopa'r mynyddoedd y ceir y goeden bresych du bellach am fod dyn wedi ei thorri i ennill tir amaethyddol.



- **Datblygu arfordiroedd:** Fe gysylltir hyn yn aml â thwristiaeth (adeiladu porthladdoedd, marinas, canolfannau gwyliau, cyrsiau golff). Mae twristiaid wedi aflonyddu ar fannau nythu crwbanod y môr prin, mae fforestydd mangrof wedi eu chwalu i greu traethau agored ac mae riffiau cwrel sy'n gartref i sawl creadur môr, ac yn rheoli faint o garbon deiocsid sydd yno, yn cael eu difetha.



- **Adeiladu ffyrdd:** I adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd mae dyn wedi torri coed a phlanhigion oedd yn gynefin i anifeiliaid ac adar. Mae llawer o greaduriaid yn cael eu lladd gan geir hefyd, fel y dylluan frech.



- **Llygredd**: Caiff gwastraff diwydiannol, a chwynladdwyr amaethyddol eu golchi i lynnoedd, afonydd a'r môr. Mae'r llygredd hwn yn cyfrannu at y newid mewn tywydd sydd, yn ei dro, yn achosi marwolaeth cwrel.



- **Defnyddio adnoddau naturiol:** Gall drilio ar gyfer nwy naturiol neu fineralau ddifetha ecosystemau. Yn dilyn darganfod y cyflenwad mwyaf o nwy o dan y dŵr ers degawd, mae pryder am ddyfodol ecosystem forol Môr y Canoldir.

